## CANLLAW I DRAFOD MATH O DESTUN:

# NARATIF

## *Trosolwg o nodweddion, iaith a strwythur*

GwE
Tuag at Ragoriaeth

YSGOL BOTWNNOG

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Ysgol Tryfan

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# PA FATH O DESTUN YW HWN?

**Testun sy'n ailadrodd digwyddiadau yn eu trefn gronolegol ran amlaf.  Gall fod yn ffuglen neu gall gynnwys gwybodaeth.**

| STRWYTHUR Y TESTUN | GWYBODAETH AM IAITH | CANLLAWIAU YSGRIFENNU |
|---|---|---|
| Bydd testun o'r math hwn i'w weld yn aml yn y ffurfiau canlynol:<br><br>• Hunangofiant<br>• Cofiant<br>• Stori Fer<br>• Detholiad o nofel<br>• Nofel graffig<br>• Llyfrau llun i blant bach | Bydd testun o'r math hwn yn cynnwys:<br><br>• Defnydd o'r amser presennol neu'r amser gorffennol e.e. *mae / roedd*; *gwêl / gwelodd*<br>• *Person cyntaf y ferf e.e. cefais; teimlais; cerddais*<br>• Trydydd person y ferf e.e. *cafodd; teimlodd; cerddodd*<br>• Defnyddio cysyllteiriau e.e. *oherwydd, yna, felly, yn sydyn, yn y cyfamser* | Wrth ysgrifennu testun o'r math hwn:<br><br>• Dylid penderfynu pwy sy'n adrodd y naratif a phwy yw'r "llais" yn y darn.<br>• Gall y "llais" yn y darn fod yn adroddwr sy'n gymeriad neu'n "lais gwrthrychol" sy'n gwylio digwyddiadau'r naratif.<br>• Dylid dewis cymeriadau'n ofalus.<br>• Gellir defnyddio sgwrs i ddod â'r digwyddiadau'n fyw.<br>• Gellir defnyddio naratif gweledol mewn nofelau graffig a llyfrau llun. |

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# YSGRIFENNU NARATIF

Wrth ysgrifennu naratif byddwn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ond y nod bob amser yw cyflwyno digwyddiadau a chymeriadau a fydd yn cynnal diddordeb y darllenydd gan gyrraedd uchafbwynt neu gasgliad.  Mae darn o naratif llwyddiannus yn dal sylw'r darllenydd drwy agoriad effeithiol ac yna'n sefydlu lleoliad ac amser y darn.  Bydd y darn yn cyflwyno cymeriadau a digwyddiadau ond bydd rhai yn **allweddol** oherwydd eu **harwyddocâd** arbennig neu oherwydd eu bod yn gyfrifol am danio cadwyn o ddigwyddiadau.  Yn ogystal â hyn, mae darn o naratif llwyddiannus yn arwain y darllenydd yn **ofalus** gam wrth gam hyd nes y bydd y cyrraedd ei uchafbwynt.  Bydd y darllenydd yn **deall** ac yn gwerthfawrogi'r uchafbwynt hwn oherwydd bydd wedi deall arwyddocâd a **chanlyniad** y digwyddiadau a arweiniodd at yr uchafbwynt.  Dylid cofio bob amser pwy yw'r "llais" yn y darn a dewis hwnnw'n ofalus oherwydd bydd yn llywio'r naratif. Ai chi fydd y "llais" yn y darn?  Fyddwch chi'n rhan o ddigwyddiadau'r naratif neu a fydd y "llais" yn gwylio'r digwyddiadau'n *wrthrychol*?  Mae gennych chi hanes neu stori i'w hadrodd . . . ewch â'r darllenydd ar daith!

**BYDDWCH YN DREFNUS** – cofiwch fod y darllenydd angen arweiniad drwy'r digwyddiadau ac efallai y byddwch yn dymuno eu cyflwyno mewn trefn gronolegol

**BYDDWCH YN GLIR** – cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno pob digwyddiad a chymeriad yn glir a chofiwch fod arwyddocâd arbennig i ambell ddigwyddiad a chymeriad ac angen sylw arbennig arnynt

**BYDDWCH YN FENTRUS** – dewis digwyddiad cyffrous a chymeriadau lliwgar wrth arwain y darllenydd at uchafbwynt eich darn gam wrth gam

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government